CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl Gydweithiwr,

22/08/2022

Yr wythnos diwethaf, fe wnes i wir fwynhau ymweliad â Pharc Gwyddorau Bywyd Cardiff Edge yn Coryton, a fydd yn gartref i ganolfan iechyd, ymchwil ac arloesi genomeg cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r ganolfan newydd o'r radd flaenaf hon a fydd yn dod â Pharc Geneteg Cymru Prifysgol Caerdydd, Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan ac Uned Genomeg Pathogen Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghyd. Disgwylir i'r cyfleuster newydd hwn agor y flwyddyn nesaf a bydd yn gam enfawr tuag at hyrwyddo arloesedd mewn meddygaeth fanwl, a fydd yn ei dro yn dod â manteision enfawr i iechyd poblogaeth Cymru yn y dyfodol, yn ogystal â'r economi.

Diolch hefyd i Mr Ravi Nannapaneni, Niwrolawfeddyg Ymgynghorol, am fy ngwahodd i ymweld â'r Adran Niwrolawdriniaeth yn B4 yn Ysbyty Athrofaol Cymru yr wythnos diwethaf i ymuno ag ef, Mr John Martin, Cyfarwyddwr Clinigol Niwrolawdriniaeth, a'r tîm sy'n trin ac yn gofalu am lawer o gleifion sydd ag anghenion cymhleth iawn, gyda gofal acíwt a hirdymor. Fel yr unig Adran Niwrowyddorau yng Nghymru roedd yn gyfle gwych i weld y gwaith y mae'r tîm yn ei wneud i ddarparu gwasanaethau i'r garfan hon o gleifion, ond hefyd i ddeall rhai o'r heriau y mae'r tîm yn gorfod eu hwynebu a myfyrio ar gyfleoedd i ddatrys ystod o faterion.

Cefais gyfarfod hynod ddiddorol hefyd â Dr Karen Pardy, Cyfarwyddwr Cymunedol Clwstwr De Orllewin Caerdydd, a fu'n garedig iawn yn fy ngwahodd i ymweld â Meddygfa Lansdowne yn Nhreganna i glywed am y gwaith y maent yn ei wneud gyda phresgripsiynu cymdeithasol yn eu cymuned leol, ochr yn ochr â gwaith gyda chydweithwyr o'r sector pediatreg gyffredinol o fewn safle acíwt i feithrin perthnasoedd a rhannu arbenigedd ac arfer gorau. Mae'n wych gweld cydweithio mor effeithiol.

Byddwch yn ymwybodol y bydd streic yn effeithio ar wasanaethau'r Post Brenhinol ar 26 a 31 Awst ac 8 a 9 Medi. Byddant yn rhoi blaenoriaeth i ddosbarthu presgripsiynau meddygol a phecynnau profion COVID lle y gallant ond cynlluniwch ymlaen llaw os ydych yn dibynnu ar eu gwasanaethau. I gael gwybod mwy, darllenwch y wybodaeth ar eu gwefan.

Rwyf am gloi drwy sôn am gyn glaf, Margaret Perkins, a gafodd ei derbyn i'r Ganolfan Trawma Mawr yn Ysbyty Athrofaol Cymru gydag anaf trawmatig i'r ymennydd yn dilyn damwain mewn bwyty yng nghanol y ddinas y llynedd.

Ar ôl treulio 12 diwrnod yn yr Uned Therapi Dwys, roedd Margaret, sydd wedi gwella'n rhyfeddol, eisiau diolch yn bersonol i'r timau a'i cefnogodd yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty. Wrth ail-fyw ei thaith, bu Margaret yn cwrdd ag Uwch Nyrsys yr Uned Achosion Brys a'r Ganolfan Trawma Mawr, yn ogystal â Jamie, y gweithiwr cymorth gofal iechyd a oedd wrth ei hochr pan gafodd ei derbyn yn gyntaf.

Yn ystod ei hymweliad dywedodd Margaret "Nid oes gair digon mawr i fynegi fy niolch a'm gwerthfawrogiad o'r timau a helpodd i achub fy mywyd y diwrnod hwnnw a'r rhai a barhaodd i'm cefnogi drwy gydol fy adferiad. Roeddwn i eisiau dod i ddweud diolch yn bersonol, i gwrdd â'r timau a roddodd ofal eithriadol i mi – hebddynt, fyddwn i ddim yma.

"O staff EMERTS, i'r Uned Achosion Brys, Trawma Mawr, Gofal Dwys, B4 Niwro a phawb a gefnogodd fy adferiad, ni fydd diolch byth yn ddigon."

Roedd yn gyfle gwych i'r timau ar bob cam o daith y claf i weld Margaret, clywed ei stori adferiad a gweld y cynnydd y mae hi wedi'i wneud. Dyma un enghraifft yn unig o'r gwaith anhygoel rydych chi i gyd yn ei gyflawni i wneud gwahaniaeth i gleifion. Diolch i Dîm CAF, sy'n parhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion mewn cyfnod eithriadol o heriol. Rwy'n gobeithio y bydd straeon fel hyn yn llonni eich diwrnod wrth i ni i gyd gael ein hatgoffa o'n cyflawniadau anhygoel er gwaethaf yr holl heriau. Diolch a da iawn i bawb.

Dathlu ein cydweithwyr o Dde Asia

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn falch o fod wedi cefnogi Mis Treftadaeth De Asia, a gynhaliwyd rhwng 18 Gorffennaf ac 17 Awst.

Bellach yn ei drydedd flwyddyn, mae Mis Treftadaeth De Asia yn coffáu, yn nodi ac yn dathlu diwylliannau cenhedloedd De Asia - Afghanistan, Bangladesh, Bhutan, India, Maldives, Nepal, Pacistan, a Sri Lanka.

Siaradodd y Caplan Sangkhuma Hmar ac aelod o'r Bwrdd Ieuenctid, Athika Ahmed, am yr hyn y mae'r mis yn ei olygu iddyn nhw a pham ei bod yn bwysig ein bod ni i gyd yn dysgu am wahanol ddiwylliannau a threftadaeth. Gallwch ddarllen am Sangkhuma ac Athika yma.

Yn y llun: Suzanne Rankin (Prif Weithredwr), Rachel Gidman (Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant), Charles Janczewski (Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro), Glynis Mulford (Cyd-gadeirydd Un Llais), Andrea Liu (Cyd-gadeirydd Un Llais). Mae Un Llais yn un o rwydweithiau profiad personol y Bwrdd Iechyd a'i nod yw rhoi llais i gydweithwyr o grwpiau Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol.

Gwobrau GIG Cymru 2022

Llongyfarchiadau i'n staff ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sydd wedi cyrraedd y rhestr fer ddwywaith yng Ngwobrau GIG Cymru 2022 ar gyfer y gwobrau canlynol:

Cyfoethogi lles, gallu ac ymrwymiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

- Clinigau iechyd croen galwedigaethol rhithwir ar gyfer staff BIP Caerdydd a'r Fro: profiad 2 flynedd a gwersi a ddysgwyd.

Cyflwyno iechyd a gofal o werth uwch Gofal Cefnogol:

- Dull sy'n Seiliedig ar Werth o ymdrin â Gofal Lliniarol mewn Methiant Datblygedig y Galon.

Mae'r Gwobrau'n cydnabod sut y gall syniadau arloesol ar gyfer newid wneud gwahaniaeth sylweddol i'r cleifion sydd angen gofal, y sefydliadau sy'n darparu gofal, a'r system iechyd a gofal yn ei chyfanrwydd.

Cyhoeddir yr enillwyr mewn seremoni ar 10 Hydref 2022. I weld rhestr lawn o'r rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol ewch i www.nhsawards.wales.

Atgofion cerddorol a wnaed yn nigwyddiadau sinema awyr agored yr Elusen Iechyd

Ddydd Sul 14 Awst, cynhaliodd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ddigwyddiad sinema awyr agored yn Ein Dôl Iechyd.

Er gwaethaf y tywydd poeth, daeth nifer o bobl draw i fwynhau'r tair ffilm rad ac am ddim a oedd ymlaen trwy gydol y dydd. Am 10am fe

ddechreuon ni gyda rhywfaint o hud Disney a gwylio Encanto, ac yna stori P.T. Barnum yn The Greatest Showman, a gorffen gyda chyd-ganu caneuon Mamma Mia.

Diolch i bawb a ddaeth draw, cyfrannu, a phobi yn y gwres gyda ni; y lolis rhew oedd byrbryd mwyaf poblogaidd y dydd! Diolch yn fawr iawn i'n noddwyr Advantage Healthcare, offer arlwyo M&M, a Willmott Dixon.